




Cynllun Grantiau Bach Bwyd Powys Food Canllawiau Ychwanegol a Geirfa

Diogelwch Bwyd

Diffiniodd Uwchgynhadledd Fwyd y Byd 1996 ddiogelwch bwyd fel:

"Pan fydd pawb, bob amser, yn cael mynediad corfforol ac economaidd at ddigon o fwyd diogel a maethlon sy'n diwallu eu hanghenion deietegol a'u dewisiadau bwyd ar gyfer bywyd actif ac iach".

Bydd gwelliannau hirdymor i'r system fwyd (mwy o gynhyrchu, cadwyni cyflenwi gwell, dosbarthu, marchnata ac ati) yn cynyddu diogelwch bwyd yn gyffredinol.

Defnyddio'r Cyfryngau gan gynnwys Cyfryngau Cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i'ch gwaith a chynyddu mynediad

Efallai y bydd gan eich prosiect derfyn ar nifer y bobl sy'n gallu cymryd rhan yn uniongyrchol, ond drwy gofnodi eich gwaith a'i rannu'n ehangach, gallech gefnogi grŵp mwy o faint o bobl i elwa. Gall blogiau, flogiau, recordiadau sain ac ati i gyd fod yn ffyrdd o rannu'r hyn rydych chi'n ei wneud a galluogi eraill i gymryd rhan neu roi cynnig ar wneud rhywbeth tebyg.

Polisiâu a strategaethau bwyd cynaliadwy

Mae polisi yn nodi ymrwymiad gan grŵp neu sefydliad i weithio mewn ffordd benodol, am resymau penodol. Mae strategaeth yn esbonio'r camau bras a fydd yn rhoi'r polisi ar waith. Yna, mae cynlluniau gweithredu yn trosi'r strategaeth yn waith bob dydd.

Efallai bod gan sefydliadau a grwpiau ymrwymadau amhenodol i weithio mewn ffyrdd cynaliadwy, ond mae cael y rhain wedi'u hysgrifennu'n glir a'u cytuno yn gwneud pethau'n gliriach. Cysylltwch â ni os hoffech ragor o wybodaeth am sut y byddech yn mynd ati i wneud hyn.

Cyd-gynhyrchu

Rydym yn chwilio am brosiectau lle mae'r rhai a fydd yn elwa hefyd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddylunio a darparu; Rydym yn disgwyl gweld anghenion, dewisiadau a phrofiadau buddiolwyr arfaethedig y prosiect yn cael eu hystyried yn glir. Cysylltwch â ni os hoffech gael arweiniad pellach.

Arferion tyfu sy'n gyfeillgar i natur

Mae ymyriadau artiffisial (cemegau ac ati) i hybu cynydau, rheoli plâu a lleihau chwyn yn cynhyrfu cydbwysedd natur, gan lygru cyflenwadau dŵr a lleihau ansawdd pridd. Mae hyn yn lleihau gwerth maethol y cynnyrch. Esboniwch beth fyddwch chi'n ei wneud yn lle hynny, neu sut y byddwch chi'n symud tuag at dyfu / amaethyddiaeth adfywiol.

Adran 3: Manylion y Prosiect

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn sut y bydd eich prosiect yn cyfrannu at y canlyniadau rydych wedi'u ticio, felly rhwch ddigon o fanylion i ni.

Awgrymiadau i'ch helpu i egluro:

- Os ydych chi'n targedu pobl sydd ar hyn o bryd yn arbennig o agored i ansicrwydd bwyd (tlodi bwyd), gwnewch yn siŵr bod hyn yn glir.
- Sut ydych chi'n gwybod bod angen y prosiect hwn?
- Esboniwch sut y gallai'r prosiect fod yn arloesol, neu drawsnewid arfer i ffyrdd mwy cynaliadwy o wneud pethau?
- Beth sy'n eich rhoi mewn sefyllfa dda i'w gyflawni?
- Beth fydd yr effaith, a sut y bydd hynny'n cael ei mesur?
- Pwy sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu eich syniad prosiect?
- Gyda phwy ydych chi'n anelu at weithio gyda nhw?
- Ydych chi'n bwriadu parhau â'ch gwaith da ar ôl i'r grant hwn ddod i ben? Os felly, sut?